# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 44
01/02/21

## Trafferth yn y Deml

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes,
Elin Bryn a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**

# Stori



**Fersiwn Beibl.net**



Roedd yn amser Gŵyl y Pasg (un o wyliau'r Iddewon), a dyma Iesu'n mynd i Jerwsalem. Yng nghwrt y deml gwelodd bobl yn gwerthu ychen, defaid a cholomennod, ac eraill yn eistedd wrth fyrddau yn cyfnewid arian. Felly gwnaeth chwip o reffynnau, a'u gyrru nhw i gyd allan o'r deml gyda'r defaid a'r ychen. Chwalodd holl arian y rhai oedd yn cyfnewid arian, a throi eu byrddau drosodd. Yna meddai wrth y rhai oedd yn gwerthu colomennod, “Ewch â'r rhain allan o ma! Stopiwch droi tŷ fy Nhad i yn farchnad!” Yna cofiodd ei ddisgyblion fod yr ysgrifau sanctaidd yn dweud: “Bydd fy sêl dros dy dŷ di yn fy meddiannu i.”



*Ioan 2:13-17 Beibl.net*

**Fersiwn syml**

Un tro aeth Iesu i Jerwsalem yn ystod gwyl y pasg. Aeth i mewn i’r Deml a gwelodd ei bod wedi ei throi’n farchnad. Roedd yna bobl yn gwerthu anifeiliaid a phobl eraill yn cyfnewid arian. Roedd Iesu’n flin iawn bod hyn wedi digwydd oherwydd lle tawel oedd y Deml i fod. Dywedodd Iesu wrth y bobl, “Lle i weddio ydy’r Deml i fod, nid lle i brynu a gwerthu. Rydych chi’n twyllo pobl yma hefyd.” Trodd Iesu’r stondinau drosodd ac aeth yr arian i bobman. Rhedodd yr anifeiliaid yn wyllt i bob cyfeiriad. Roedd arweinwyr y deml yn flin iawn gyda Iesu am beth oedd wedi ei wneud.



# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:



1. Ble sy’n arbennig i’ch teulu chi?
2. Sut fyddet ti’n teimlo pe byddai’r lle arbennig hwn yn cael ei ddifetha gan rywun?
3. Pa bethau annheg yn y byd sy’n dy wneud yn flin?
4. Pam oedd Iesu wedi gwylltio?
5. A fyddet ti’n disgwyl i Iesu wylltio?

# Gweddi fer


O Dduw, rwyt Ti mor dda ac mor deg.
Diolch i Ti dy fod yn ein croesawu ni atat bob amser.
Maddau i ni pan fyddwn ni’n anghofio mor arbennig wyt Ti.
Amen.




# Stori i'w lliwio

## Iesu'n clirio'r Deml

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Mae'r stori hon yn ein hatgoffa i barchu tŷ Dduw.



Aeth Iesu i'r Deml yn Jerwsalem i ddathlu Gŵyl y Pasg yn union fel roedd wedi arfer ei wneud ers yn blentyn bach.



Yng nghwrt y Deml roedd pobl wedi creu marchnad ble'r oedd gwartheg, defaid a cholomennod yn cael eu gwerthu ar gyfer eu hoffrymu fel ebyrth. Ond roedd y marsiandiwyr yn anonest ac yn codi crocbris.




Cynhyrfodd Iesu am fod teml sanctaidd Duw wedi ei throi'n farchnad swnllyd a drewllyd felly plethodd chwip allan o raffau bychain.




Gyda'r chwip ymlidiodd yr holl farsiandiwyr allan o'r Deml a dywedodd wrthynt am beidio â throi tŷ ei Dad yn farchnad byth eto.



Dywedodd Iesu wrth y bobl oedd yn gwerthu'r colomennod i adael y Deml hefyd. Dihangodd y marsiandiwyr a'r adar o'r adeilad ar frys.



Yna aeth Iesu at fyrddau'r cyfnewidwyr arian. Trodd y byrddau drosodd ac roedd arian ar chwâl ym mhobman.



"Ewch â'r pethau hyn allan o dŷ fy Nhad," gorchmynnodd Iesu. "Nid lle i wneud arian ydy'r fan hon ond lle i weddïo."

# Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=yKbx6gc0FDA&t=20s

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/l5q91uI2foE









Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=4YHWupHHVCg

# Gweddi Greadigol

## Gweddi dros y byd

Mae bywyd yn anodd iawn i blant a phobl mewn rhai o wledydd y byd.
Mae pethau yn annheg iawn.




**Bydd angen:**
Papur glas tua maint A4, plât, siswrn, brwsh paent, papur brown, paent gwyrdd, pin ffelt lliw tywyll, glud

**Sut i wneud:**

- Defnyddia'r plât i wneud siâp cylch ar y papur glas.
- Torra allan y siâp cylch ar y papur glas.
- Peintia'r paent gwyrdd ar dy law gyda'r brwsh.
- Rho dy law ar y papur glas i argraffu ei siâp.
- Paentia mwy o baent ar dy law.
- Tro'r cylch ffordd arall a rho dy law arno eto mewn lle gwahanol.
- Golcha dy law a rho'r papur i sychu.
- Gwna siâp croes gyda'r papur brown a'i ludo ar ganol y papur.
- Meddylia am wledydd yn y byd lle mae bywyd yn anodd i'r bobl e.e. Yemen, Afghanistan, Somalia, Syria. https://opendoorsuk.org/resources/families/
- Ysgrifenna enwau'r gwledydd o gwmpas y cylch a gofynna i Dduw helpu plant y gwledydd hyn.

---

## Gweddi pan dwi'n flin

Weithiau mae pethau'n digwydd sy'n ein gwneud yn flin.
Rydyn ni'n gallu gofyn i Dduw ein helpu pan fyddwn ni'n teimlo fel hyn.

**Byddi angen:**
Darn o glai neu 'Playdoh'
*Os nad oes gennyt ti glai gelli wneud toes halen. Mae rysáit i'w chael ar y ddolen hon:*
https://www.bbcgoodfood.com/howto/guide/how-make-salt-dough-recipe



**Beth i'w wneud:**

- Gwasga'r clai am ychydig yn dy ddwylo.
- Dyweda wrth Dduw sut wyt ti'n teimlo a pham.
- Siapia'r clai i siâp y peth sy'n dy wneud yn flin.
- Wrth i ti siapio'r clai, gofynna i Dduw dy helpu i ollwng gafael ar y teimladau blin.

# Posau


Fedri di weld 8 gwahaniaeth rhwng y 2 lun?






## Datrys y cod

Defnyddia'r allwedd i ddatrys y cod a dod o hyd i'r adnod.







## Pos cyfnewid arian

Yn yr hanes wnaeth Iesu droi byrddau'r bobl oedd yn cyfnewid arian yn y deml.

Fedri di gyfnewid yr arian sydd yma?
Os ydy 1c werth 5c, faint ydi gwerth y darnau arian hyn:





# Sialensau



## Cist drysor

Crea flwch gwylltio.
Addurna focs bychan a rho dwll neu hollt yn ei dop.

Bob tro y bydd rhywun yn gwylltio yn eich tŷ chi, gofynna iddyn nhw roi arian yn y blwch gwylltio.
Ar ôl mis rho’r arian i achos da.




## Clirio allan

Glanha dy ystafell a chael gwared ar y pethau dwyt ti mo’u hangen sydd ynddi.

Oes yna rywbeth nad wyt ti ei angen yn dy fywyd?

Gofynna i Dduw dy lanhau di o’r tu mewn.





## Beth sy'n dy wneud di'n flin?

Meddylia am bethau sy'n dy wneud di'n flin. Ydyn nhw'n bethau gwirioneddol bwysig neu’n dim ond pethau bach diflas?

Pa bethau yn y byd ddylai ein gwneud yn flin mewn gwirionedd?

Beth ddylen ni wneud amdanyn nhw?






## Cyfrif i 10!

Os nad ydy’r cyfrifiadur yn ddigon cyflym, neu dy frawd neu dy chwaer yn bod yn anodd, neu os wyt ti ar frys, neu’n ddiamynedd, cyfra i 10 a cheisia ddangos amynedd!

Faint o weithiau fedri di wneud hyn yr wythnos hon?



# Gêm



## Gêm y cwpanau:

Yn yr hanes am Iesu yn y Deml, mae Iesu yn troi byrddau’r bobl oedd yn cyfnewid arian.
Yn y gêm, mae angen troi cwpanau!

**Byddi angen:**
- 10 o gwpanau plastig
- Amserydd – ffôn neu oriawr

**Sut i chwarae:**
- Rhowch y 10 cwpan blastig ben i waeredd ar fwrdd neu ar lawr ar un ochr i’r ystafell.
- Mae’r chwaraewr yn sefyll yr ochr arall i’r ystafell.
- Mae pob chwaraewr yn ei dro’n mynd i droi’r cwpanau’r ffordd arall. Rhaid i bob cwpan sefyll i gael ei gyfrif.
- Cofia amseru pob chwaraewr.
- Pwy fedr droi’r cwpanau i gyd gyflymaf?



| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | C | A | H | I | E | Y | CH | E | N | D | L |
| W | E | Y | S | G | R | I | F | A | U | S | M |
| D | I | A | F | E | D | J | LL | W | N | O | E |
| U | A | S | G | N | S | A | M | I | O | R | T |
| T | DD | A | N | Y | E | A | U | P | I | W | CH |
| NG | E | N | J | E | R | W | S | A | L | E | M |
| CH | M | C | A | CH | DD | R | I | L | B | D | P |
| W | A | T | N | I | E | S | U | D | Y | F | A |
| A | T | A | D | U | TH | R | E | W | G | Ŵ | S |
| L | D | I | CH | W | I | P | O | T | S | FF | G |
| U | A | DD | R | Y | B | E | A | R | I | A | N |
| C | O | L | O | M | E | N | N | O | D | RH | A |

# Chwilair

ALLAN
ARIAN
BYRDDAU
COLOMENNOD
CYFNEWID
CHWALU
CHWIP
DEFAID
DISGYBLION
DUW
GWERTHU
GŴYL
GYRRU
IESU
JERWSALEM
MARCHNAD
MEDDAI
PASG
RHAFF
SANCTAIDD
STOPIWCH
TAD
TEML
TROI
YCHEN
YSGRIFAU

# Gêm

## Siapio'r gair

Yn y gêm hon, mae chwaraewr yn ceisio siapio gair allan o glai tra mae'r chwaraewyr eraill yn ceisio dyfalu beth ydy'r gair! (Yn debyg i 'Pictionary' ond gyda chlai!)

**Bydd angen:**

- Clai neu 'Playdoh'
  Os nad oes gennyt ti glai gelli wneud toes halen. Mae rysáit i'w chael ar y ddolen hon: https://www.bbcgoodfood.com/howto/guide/how-make-salt-dough-recipe
- Bowlen
- Mwy nag un chwaraewr

**Sut i chwarae:**

- Torra'r geiriau o'r stori o'r rhestr isod a'u rhoi mewn bowlen.
- Dewisa un person i siapio'r clai i ddechrau.
- Mae'r person yn dewis gair o'r bowlen (heb edrych ar y geiriau eraill).
- Mae'r person hwn yn ceisio gwneud siâp beth ydy'r gair – a dim siarad!
- Mae'r chwaraewyr eraill yn ceisio dyfalu beth ydy'r gair.
- Mae pob chwaraewr yn cael tro i siapio gair.
- Yr enillydd ydy'r chwaraewr sydd wedi dyfalu cymaint o eiriau ag sy'n bosibl yn gywir.

| | | |
|---|---|---|
| **Buwch** | **Dafad** | **Colomen** |
| **Chwip** | **Arian** | **Iesu** |
| **Y Deml** | **Bwrdd** | **Pobl** |



# Bisgedi gwep

Rysáit

*Roedd golwg flin ar Iesu pan welodd beth oedd yn digwydd yn y Deml.*

**Cynhwysion:**

- 100g/3½ owns o fenyn heb halen sy'n weddol feddal ac wedi cyrraedd tymheredd yr ystafell
- 100g/3½ owns o siwgr caster
- 1 wy maint canolig, wedi ei guro
- 1 llwy de o rinflas fanila
- 275g/10 owns o flawd plaen





**Dull** (ar gyfer tua 24 o fisgedi)**:**

- Cymysga'r menyn a'r siwgr gyda'i gilydd yn y bowlen hyd nes y bydd y gymysgedd yn hufennog. Cura'r wy a'r rhinflas fanila, ychydig ar y tro, i mewn i'r gymysgedd ac yna ychwanega'r blawd a chymysgu'r cyfan i ffurfio toes.
- Gwna belen o does, ei lapio mewn 'clingfilm' neu ffoil a'i adael yn yr oergell am awr.
- Cynhesa'r popty nes bydd wedi cyrraedd tymheredd o 190 gradd canradd/170 gradd canradd ar gyfer popty ffan/ Nwy 5. Leinia hambwrdd pobi â phapur gwrthsaim.
- Wedyn ar arwynebedd blodiog neu ddarn go fawr o bapur gwrthsaim rholia'r toes allan â rholbren nes y bydd tua ½ cm o drwch. Torra gylchoedd allan o'r toes â thorrwr o faint bach. Yna defnyddia ffon coctel i grafu dwy lygaid, trwyn a cheg yn y toes. Gelli wneud wyneb hapus, blin, barfog neu drist.
- Yna rho'r bisgedi ar yr hambwrdd pobi a'u rhoi yn y popty i goginio am 8 – 10 munud, neu hyd nes y byddant wedi troi'n frown euraidd ysgafn. Rho nhw o'r neilltu i oeri am rhyw ddau funud ar rac weiren.

Opsiynau eraill wedi i'r bisgedi bobi ydy: ychwanegu siocled tawdd a hadau sesami i wneud barf, neu fe allet ti drochi gwaelod y bisgedi mewn siocled tawdd i gynrychioli gwallt neu farf. Neu fe allet ti hefyd bobi bisgedi a gwneud lluniau wynebau arnynt, ar ôl iddynt ddod o'r popty, gyda phinnau addurno ag eisin lliwgar. Mae yna opsiwn hefyd i ti ddefnyddio llygaid bwytadwy!



Joia!

Canu

Mae 'na drafferth yn y Deml lle mae pawb yn hoffi dod.
Mae'n edrych mwy fel marchnad na'r tŷ gweddi y dylai fod.
Mae rhai yn gwerthu gwartheg, defaid, a cholomennod bach;
Mae rhai yn newid arian ac yn creu cymaint o strach.

Aeth Iesu i lawr i'r Deml i addoli Duw un dydd.
Pan welodd y masnachwyr – nad oeddent yno am y ffydd!
Mor ddig, cymerodd chwip, gyrrodd 'r anifeiliaid i ffwrdd.
Aeth at gyfnewidwyr arian a throdd drosodd bob bwrdd.

Cofiodd ei ddisgyblion be wnaeth Dafydd ysgrifennu,
"Bydd fy sêl dros dy dŷ di yn fy meddiannu."

Mae Duw eisiau pawb i ddod
Nid jest ambell un.
'Dy O ddim yn hoffi pethau
Sy'n cadw ni oddi wrth ei hun.
Mae'i freichiau Ef ar agor bydd yn gwrando arnom 'to.
Does dim ots pa mor aml
Mae'n croesawu ni bob tro.



*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/l5q91uI2foE

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org